

Ysgol Syr Thomas Jones



Prosbectws Prospectus



2019-20

"Gorau athro ymgais"

"Pleser yw cyflwyno'r prospectws hwn i chi rieni a chyfeillion Ysgol Syr Thomas Jones."

Ysgol Gyfun ddwyieithog yw Syr Thomas Jones sy'n gwasanaethu cymunedau De Ddwyrain Ynys Môn. Ar hyn o bryd mae 508 o bobol ifanc rhwng 11 ac 18 oed yn mynychu'r ysgol yn ddyddiol. Mae yma gymuned glos ac awyrgylch gynnes iawn. Mae hyn oherwydd y parch ddangosir gan pob aelod o deulu'r ysgol tuag at ei gilydd. Rydym yn falch o bob un o'n pobol ifanc, yn ddisgyblion presennol ac yn gyn-ddisgyblion; gwn iddynt hwythau hefyd fod yn falch o'u hysgol.

Ein nod yw paratoi dysgwyr am oes o wasanaeth i'w cymunedau ac yn ogystal i annog y bobl ifanc sy'n ein gadael i ysbrydoli'r genhedlaeth nesaf.

Mr R. Aaron Bayley (Prifathro)

Nodwyd y canlynol gan Arolygwyr yn yr Arolwg a gynhaliwyd yn Ebrill 2012: -

"Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn ysgol ofalgar gydag ymdeimlad cryf o gymdeithas gymunedol a chynhaliol. Mae'r rheolwyr a staff i gyd yn weithgar wrth ymateb i nodau ac amcanion yr ysgol a hybu cynnydd disgyblion"

Mae'r ysgol wedi derbyn cydnabyddiaeth genedlaethol ROQA ym meysydd Gyrfaedd, Profiad Gwaith a Busnes yn y Gymuned a'r Wobr Buddsoddwr Mewn Pobl yn ogystal â'r Marc Safon am Sgiliau Sylfaenol.



GWYBODAETH I RIENI 2018-19

PWY I'W WELD, PWY I SIARAD Â HWYNT A PHRYD

Os hoffech ddod draw i weld pethau drosoch eich hunan bydd croeso i chi. Dylai darpar rieni wneud trefniadau ymlaen llaw gyda'r Prifathro neu'r Dirprwy Brifathro unai ar y ffôn yn ystod oriau ysgol neu trwy lythyr.

MYNEDIAD I'R YSGOL

Oriau'r Ysgol yw o 8.45a.m. tan 3.20p.m.

Mae Swyddfa'r Ysgol yn agored o 8.00a.m. tan 3.30p.m.

CYSYLLTIADAU YN YR YSGOL



RHIF FFÔN: (01407) 830287
LLINELL ABSENOLDEBAU: (01407) 833040
E-BOST ABSENOLDEBAU: mandyj@ystj.anglesey.sch.uk
NEGES DESTYN 07624815131
E-BOST YSGOL: post@ysgolsyrthomasjones.cymru

Yr Uwch Dim Arweinyddol



Mr Aaron Bayley - Pennaeth



**Mr Islwyn Williams
Dirprwy**



**Dr Geraint Jones
Dirprwy**



**Mrs Mefys Jones-Edwards
Pennaeth Cynorthwyol**

YR YSGOL A'R CARTREF

STAFF YR YSGOL

ARWEINYDD BLWYDDYN

Mrs Heledd Lewis Jones	HLJ	Pennaeth Blwyddyn 7
Mrs Eleri Foulkes	EF	Pennaeth Blwyddyn 8/9
Mr Gwyn Anwyl	GA	Pennaeth Blwyddyn 10/11
Mrs Bethan Hughes Jones	BHJ	Pennaeth Blwyddyn 12/13

Cyd-gysylltydd Anghenion Addysgol Ychwanegol

Miss Lia Wyn Jones	LWJ
--------------------	-----

Athrawon

Mr Gwyn Anwyl	GA	TGaCh
Mr R. Aaron Bayley	RAB	Mathemateg
Mr J. Eirian Davies	JED	Pennaeth Cyfadran
Mrs Angharad Derham	ALD	Addysg Grefyddol / Cyd-lynydd ABaCh / Gyrfaedd
Mrs Nia Edwards	NE	Ffrangeg
Mrs Eleri Foulkes	EF	Cerdd
Mrs Christine Griffith	CG	Mathemateg
		Cyd-Lynydd Fframwaith Rhifedd a Dehongli Data
Mrs Wendy Morris Griffiths	WMG	Pennaeth Cyfadran
Miss Helen Howell	HH	Ffiseg
Mrs Carys Dwyfor Hughes	CDH	Cymraeg
Mrs Teleri Haf Hughes	THH	Cymraeg
Mrs Bethan H. Jones	BHJ	Hanes
Dr Geraint O. Jones	GOJ	Ffiseg
Mr Gwynedd Jones	GJ	Addysg Gorfforol
		Arweinydd Cynhwysiant, Iechyd a Lles
Mrs Heledd Lewis Jones	HLJ	Cymraeg a Drama
Miss Iola Jones	IJ	Addysg Gorfforol / Gwyddoniaeth
Mrs Mefys Jones-Edwards	MJ	Pennaeth Cyfadran
Mrs Gwenan Morgan Pugh	GMP	Saesneg
Mrs Ceren Mutembo Jones	CMJ	Pennaeth Cyfadran
Mr Dylan Owen	DO	Mathemateg
Mrs Lois M Owen	LMO	Cemeg
Mr Ceirion Parry	CP	Addysg Gorfforol / Technoleg Bwyd / TGaCh
Mr Iddon Pierce	IP	Saesneg
Mr Bryn Roberts	ABR	Pennaeth Cyfadran
Mrs Mandy Roberts	MR	Pennaeth Cyfadran
Mrs Tracey Stretton	TS	Saesneg
Miss Rachel Thomas	RT	Pennaeth Cyfadran ar y Cyd
Mrs Cleo Thomas Jones	CTJ	Pennaeth Cyfadran
Mrs Lisa Wheldon-Williams	LWW	Hanes / Ymarfer Corff
Mrs Einir Williams	EMW	Ffrangeg / Cyd-Lynydd Bac
Miss Eleri Williams	EW	Cemeg
Mr Islwyn Williams	IW	Celf
Mr Mark Williams	MAW	T. G. Ch./ Busnes
Mr Sion P. Williams	SPW	Technoleg / Adeiladwaith

YR YSGOL A'R CARTREF

Staff Ategol

Miss Menna Owen	MWO	Swyddog Cefnogi Ysgol
Mrs Susan Owen	SO	Swyddog Cefnogi Ysgol
Mrs Mandy Jones	MJ	Swyddog Cefnogi Ysgol
Miss Debbie Whitaker	DW	Swyddog Cefnogi ysgol
Mrs Carol Whitaker	CW	Cynhellydd
Mr Dafydd Thomas	DT	Rheolwr Safle / Swyddog Arholiadau
Mr Corey Chivers	CCC	Swyddog Cefnogi Cwricwlwm
Mrs Angharad Williams	AW	Anogwr Dysgu
Mrs Michelle Hughes	MH	Uwch Gynhorthydd
Miss Nia Jones	NJ	Uwch Gymhorthydd
Mrs Elizabeth A. Williams	EAW	Swyddog Cefnogi Ysgol
Mrs Ceri Rhys Jones	CRJ	Swyddog Cefnogi Cwricwlwm
Mrs Margaret Gray		Goruchwyllwyr Amser Cinio
Mrs Barbara Owen		Goruchwyllwyr Amser Cinio
Mr Keith Jones	KJ	Gofalwr
Mr Ian Rothwell Jones	IRJ	Gofalwr

Cymorthyddion

Mrs Catrin Davies	CD
Mr Mo Eynon	MO
Mrs Yvonne Hughes	YH
Mrs Sandra Jones	SO
Ms Lisa Lloyd	LLL
Mrs Gwenda Owen	GO
Mrs Janice Roberts	JR
Mrs Anna Rowlands	ALR
Mrs C. Mair Jones	CMJ
Mrs Claire Ashton	CA
Mrs Sian Thomas	ST
Miss Ffion Roberts-Drakley	FFRD
Miss Casey Williams	CHW
Mrs Mary Williams	MW

Swyddog Lles Addysg

Mrs Sian Parry	ar gael
yn yr Ysgol	

Nyrs Ysgol, Bwrdd Iechyd Lleol

Mrs Ffion Roberts	ar gael
drwy gysylltu â'r ysgol	

Cogyddes

Mrs Linda Roebuck

Gwasanaeth Cyngori

Ms Sara Mai Roberts

Gyrfaeoedd

Mrs Sue Legg-Hughes



YR YSGOL A'R CARTREF

DOGFENNAU SYDD AR GAEL

Mae gennych hawl, os dymunech i gael golwg ar nifer o ddogfennau megis Cylchlythyrau Llywodraeth Cymru, polisiâu'r Awdurdod Addysg, polisiâu a nodau cwricwlaidd Y Corff Llywodraethu, adroddiadau AEM ar yr Ysgol, manylbau a Chynlluniau Gwaith, adroddiad blynyddol i rieni. Gallwch gysylltu â'r Prifathro yn ystod oriau ysgol i drefnu amser cyfleus i chi gael gweld y dogfennau.

Er bod manylion y llyfryn hwn yn gywir pan gyhoeddwyd ef ni ellir rhagweld na fydd unrhyw newid a all effeithio ar y trefniadau cyn dechrau neu yn ystod y flwyddyn. Os bydd newidiadau neu ychwanegiadau yn digwydd, hysbysir cyfarfod blynyddol y Llywodraethwyr a'r Rhieni o hynny.

COFNODION AR DDISGYBLION

Mae'r Ysgol yn cadw gwybodaeth gwricwlaidd ar gyfer pob disgybl. Mae gan rieni/gwarchodwyr hawl i weld y rhan fwyaf o'r cofnodion yma am eu plant.

MYNEDIAD AC APELIADAU

Mae gan Ysgol Syr Thomas Jones ei dalgylch naturiol sef dalgylchoedd Ysgolion Cynradd Goronwy Owen, Y Benllech, Moelfre, Penysarn, Amlwch, Rhosybol, Llanfechell, Carreglefn, Cemaes. Trefnir cludiant i holl ddisgyblion yr ardaloedd yma i fynychu i Ysgol Syr Thomas Jones.

Os gwrthodir lle i'r disgybl yn Ysgol Syr Thomas Jones, bydd gan y rhieni hawl i wneud apêl i'r Awdurdod Addysg ac i'r Cynulliad

Dylai rhieni sy'n dymuno trosglwyddo eu plentyn o Ysgol Uwchradd arall (a heb fod yn newid cyfeiriad) i enwi ffurflen dewis rieni gan nodi rhesymau am y cais a'i gyflwyno i'r Awdurdod Addysg ond nid cyn trafod yn fanwl gyda'r Prifathro.

YR YSGOL A'R CARTREF

Unwaith y tymor fe fyddwch yn derbyn cylchlythyr yr ysgol sef Y Leinws Bach yn adrodd am holl ddigwyddiadau'r ysgol.

Byddwn yn anfon yn aml gylchlythyrau i rieni drwy law eu plant, neu neges destun / e-bost yn gofyn am wybodaeth e.e. caniatâd i fynd ar daith, rheswm am absenoldeb a gwahoddiad i weithgareddau. Rhoddir Adroddiadau am waith y disgyblion o leiaf un waith y flwyddyn a gwahoddiad i ddod i'r Ysgol i drafod gwaith eich plentyn. Anfonir llythyr personol drwy'r Post a gwneir galwad ffôn os 'rydym am gael gair cyfrinachol/personol â chi.

Mae'n bwysig eithriadol fod rhieni yn cymryd diddordeb byw yng ngwaith eu plant er mwyn cael perthynas dda rhyngom.

Mae yna nifer o achlysuron y byddwn yn eich gwahodd i ddod draw ac mae yna nifer o weithgareddau cymdeithasol yr hoffwn ichi fanteisio arnynt i ddod i adnabod yr ysgol a'r athrawon.



YR YSGOL A'R CARTREF

Y PENNAETH : Mr Aaron Bayley BSc

CADEIRYDD: Mr Richard O Jones
CLERC: Miss Wendy Backhouse

PWY SYDD AR GORFF LLYWODRAETHOL YR YSGOL? CYNRYCHIOLWYR YR AWDURDOD

Cyng. R. O. Jones
Cyng. Ieuan Williams
Mrs Jean Jones
Mr Arwel Hughes
Cyng. Margaret Roberts

CYNRYCHIOLWYR Y RHINI

Mr Paul Edwards
Mrs Sharon Sage Jones
Mr Gareth Owen
Mrs Heather Melton
2 sedd wag

CYNRYCHIOLWYR YR ATHRAWON

Mrs Nia T Edwards
Miss Rachel Thomas

CYNRYCHIOLYDD STAFF ATEGOL

Mrs Ceri Jones

AELODAU CYFETHOLEDIG

Mrs Myra Pritchard Jones
Mrs Llio Johnson
Mr Alwyn Jones
Mrs Julie A Hughes

Dylid anfon unrhyw ohebiaeth at sylw Cadeirydd y Corff i'r cyfeiriad isod :-



CLERC CORFF LLYWODRAETHOL YSGOL SYR THOMAS JONES,
YSGOL SYR THOMAS JONES,
PENTREFELIN,
AMLWCH,
YNYS MON,
LL65 9TH

YR YSGOL A'R CARTREF

TREFN GWYNO

Mae'r Awdurdod Addysg Lleol, yn unol â gofynion yr Ysgrifennydd Gwladol, dan Adran 23 o'r Ddeddf Diwygio Addysg 1988, wedi sefydlu trefn i ystyried cwynion am y modd y mae Cyrff Llywodraethu'r ysgolion a'r Awdurdod Addysg yn gweithredu mewn perthynas â chwricwlwm ysgol a materion eraill cysylltiedig. Mae'r drefn hon wedi ei hamlinellu mewn dogfen bwrpasol yn y Gymraeg a'r Saesneg sydd ar gael yn yr ysgol. Darperir copi'n rhad ac am ddim, yn ôl y gofyn, i unrhyw rieni sy'n dymuno gwneud cwyn dan y trefniadau hyn, a gall yr Awdurdod ddarparu copi mewn iaith heblaw'r Gymraeg a'r Saesneg os bydd hynny'n angenrheidiol. Pwysleisir, fodd bynnag, y gellir ymdrin â llawer o gwynion yn gyflym ac effeithiol drwy ystyriaeth anffurfiol yn seiliedig ar drafodaethau gyda'r Prifathro neu staff eraill yr ysgol. Hwn yw'r cam rhesymol cyntaf, a phan fo'r amgylchiadau'n rhai eithriadol, bydd y Corff Llywodraethu'n disgwyl bod y cam yma wedi ei gyflawni cyn cyflwyno'r gwyn yn ffurfiol.

Dylid cysylltu a Swyddfa'r ysgol i wneud apwyntiau i drafod unrhyw gwyn gyda'r Prifathro



Mae'r ffreutur yn fodern ac yn ardal brysur iawn yn ystod amser egwyl a chinio. Mae dewis eang o fwydydd ar gael. Gellir dewis o'r cowntar brechdanau, y cowntar salad neu o'r bwydydd poeth, prydau pasta a reis, neu datws pŵb.

Mae amrywiaeth o ddioddydd oer ar werth, a dau ddewis o bwdin gyda iogwrt neu fisgedi ar gael yn ddyddiol. Gall disgyblion ddefnyddio'r ffreutur i fwyta pecyn bwyd pe dymunent.

Mae'r system beiometric o roi arian mewn cyfrif personol ar ddechrau'r dydd yn hwyluso talu am ginio. Mae rhieni hefyd yn gallu bwydo arian i'r cyfrif dros y We. Gellir rhoi digon o arian i mewn i gynnal disgybl am wythnos neu dymor.



"Mae ansawdd y gefnogaeth personol a gynigir gan yr Anogwyr Dysgu yn nodwedd arbennig o ddarpariaeth addysg Llwybrau Dysgu 14-19."

Adroddiad ESTYN 2012

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

DATGANIAD O AMCANION CWRICWLAIDD Y CORFF LLYWODRAETHOL

Mae Corff Llywodraethol yr ysgol hon wedi mabwysiadu'r amcanion cwricwlaidd canlynol:

1. Meithrin yn gyntaf oll gymdeithas waraidd sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol a dynol gan ddatblygu hunan-barch a goddefgarwch tuag at eraill â gofal drostynt.
2. Galluogi pob unigolyn i fod yn aelod llawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae'n rhan ohoni.
3. Galluogi pob unigolyn i ennill, datblygu a chymhwyso medrau allweddol mewn cyfathrebu, rhifedd a thechnoleg gwybodaeth.
4. Galluogi pob unigolyn i ddatblygu sgiliau deallusol, creadigol, cymdeithasol, ymarferol a chorfforol.
5. Dysgu am gyflawniadau a dyheadau Dyn ym maes y celfyddydau, y gwyddorau, crefydd a'r ymchwil am gymdeithas ragorach.
6. Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau a sgiliau personol sy'n berthnasol i fywyd oedolyn, i waith a diweithdra mewn byd sy'n prysur newid, i addysg barhaol ac i'r defnydd creadigol o hamdden.
7. Cynorthwyo pob disgybl i ddeall y byd y mae'n byw ynddo a'r modd y mae unigolion, grwpiau a chenhedloedd yn ddibynnol ar ei gilydd.

Dadansoddir y cwricwlwm yn nhermau'r meysydd profiad a ganlyn:

Ieithyddol, Mathemategol, Gwyddonol, Technolegol, Crefyddol/Moesol, Esthetig/Creadigol, Corfforol, Dynol/Personol/Cymdeithasol.

AM-SER



AR



GYFER DYSGU

Treulir cyfanswm o 25 awr yr wythnos yn dysgu yn ystod y pum mlynedd gyntaf o addysg uwchradd (6 gwrs y dydd). Mae'r oriau hyn yn cynnwys addysg grefyddol, ond nid y weithred feunyddiol statudol o gyd-addoli, cofrestru neu gael egwyl. Rhennir y diwrnod ysgol fel a ganlyn:-

8.40	- Cloch
8.50	- 9.05 Cofrestru ac Addoli ar y Cyd
9.05	- 9.55 Gwers 1
9.55	- 10.45 Gwers 2
10.45	- 11.00 Egwyl
11.00	- 11.50 Gwers 3
11.50	- 12.40 Gwers 4
12.40	- 1.40 Cinio
1.35	- Cloch Rhybudd Cofrestru
1.40	- 1.45 Cofrestru
1.45	- 2.33 Gwers 5
2.33	- 3.20 Gwers 6
3.20	- Diwedd Diwrnod Ysgol

Yn ystod yr awr ginio cynigir sesiynau ychwanegol gan athrawon a chymorthyddion dysgu ar gyfer dysgu ychwanegol.

Cynhelir clybiau i gefnogi darllen, rhifedd, llafaredd a Gwaith Cartref. Yma, caiff y disgyblion gyfle i gyfarfod dysgwyr o flynyddoedd eraill.

Cynhelir clybiau gweithgareddau chwaraeon sy'n boblogaidd iawn hefyd.



CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

Y CWRICWLWM - CYFNOD ALLWEDDOL 3

Mae'r ysgol yn darparu cwricwlwm sy'n sicrhau cydbwysedd rhwng yr 13 maes cwricwlaidd a grybwyllir yn y Cwricwlwm Cenedlaethol ynghyd â'r elfennau trawsgwricwlaidd megis Addysg Personol a Chymdeithasol i bob disgybl yn yr ysgol. Cynigir cefnogaeth ychwanegol i ddisgyblion gydag anawsterau dysgu.

Amlinellir isod y patrwm cwricwlaidd a weithredir gan yr Ysgol i ymateb i ofynion y Cwricwlwm Cenedlaethol.

Blwyddyn 7

Iaith	Cymraeg/Saesneg/Ffrangeg	30%
Craidd Personol		04%
Technoleg/Celf/Cerdd/Addysg Gorfforol/Tech. Gwybodaeth		30%
Dyniaethau	Daearyddiaeth/Hanes/Addysg Grefyddol	10%
Mathemateg		13%
Gwyddoniaeth		13%

Ym mlwyddyn 7, bydd y disgyblion yn cael eu cofrestru a'u dysgu yn yr un grwpiau. Gosodir hwy yn eu dosbarthiadau yn dilyn ymgynghoriad rhwng yr Ysgolion Cynradd a'r Cyd Gysylltydd Cynradd/Uwchradd.



Blwyddyn 8 a 9

Iaith	Cymraeg/Saesneg/Ffrangeg	37%
Craidd Personol	Tiwtorial/Gyrfaoedd	03%
Technoleg/Celf/Cerdd/Addysg Gorfforol		23%
Dyniaethau	Daearyddiaeth/Hanes/Addysg Grefyddol	17%
Mathemateg		10%
Gwyddoniaeth		10%

Tueddir i gadw'r disgyblion yn yr un grwpiau tiwtorial a grwpiau dysgu ond bydd rhai pynciau yn addasu'r grwpiau dysgu i setiau ar sail cyrhaeddiad y disgyblion yn y pwnc yn ystod blwyddyn 7.



SGILIAU SYLFAENOL

Rhoddir pwyslais ar ddatblygu sgiliau sylfaenol, llythrennedd a rhifedd pob disgybl. Bydd disgwyl i bob rhiant roddi cymorth i'w plentyn gyda'r sgiliau sylfaenol wrth drafod Gwaith Cartref, wrth ddarllen a thrwy gymhwyso rhif. Bydd elfen o lythrennedd a rhifedd yn cael ei ddysgu yn draws gwricwlaidd.

Y CWRICWLWM - CYFNOD ALLWEDDOL 4

Blwyddyn 10 / 11

Cymraeg	10% / 13%	Mathemateg	13%/10%
Saesneg	10% / 13%	Gwyddoniaeth	20%/20%
Craidd Personol	47%/ 44%		
(Addysg Gorfforol/Hamdden/Gyrfaoedd/ Galwedigaethol/Profiad Gwaith/ Technoleg Gwybodaeth/Addysg Grefyddol/ABaCh)/Y Fagoloriaeth Gymreig			

TARGED PRESENOLDEB 2018/19

95

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

- Dewis 1** Hanes, Gwyddoniaeth Driphlyg, Adeiladwaith L1/L2, Astudiaethau Crefyddol, Lletygarwch ac Arlwyfaeth L1/L2, Adeiladwaith L1 (CM), Gwasanaethau Cyhoeddus L2 (CM)
- Dewis 2** Daearyddiaeth, Drama, Ffrangeg, Dylunio a Thechnoleg, Cerdd, Peirianeg Modurol L1 (CM), Technoleg Cerbydol L2 (CM), Trin Gwallt a Harddwch (YUB), Sgiliau Byw yn An-nibynnol (CM),
- Dewis 3** Dylunio Peirianeg, Astudiaethau Busnes, Celf, Technoleg Gwybodaeth, Iechyd a Gofal.

Ar ddiwedd Blwyddyn 9 cynhelir noson agored i rieni gael cyflwyniad o'r opsiynau. Darperir llawlyfr sy'n egluro goblygiadau y dewisiadau a'r Cwricwlwm Cenedlaethol a'r cyfuniadau posibl ynghyd â ffurflen i wneud y dewis yng ngoleuni'r cyngor a roddir gan yr ysgol a Gyrfa Cymru. Yna bydd y disgyblion yn gwneud eu dewisiadau ar lein drwy wefan Gyrfa Cymru.

CYRSIAU GRŲP LLANDRILLO MENAI DEWIS 1 A 2

Cynhelir y cyrsiau ar fore dydd Llun a prynhawn dydd Mercher i FI 10 ac 11 ar safle Grŵp Llandrillo Menai ym Mangor neu Llangefni.

Mae'r ysgol yn gwneud trefniadau ar gyfer teithio yn ôl a blaen i'r Coleg. Mae hyn yn rhoddi agwedd o gyfrifoldeb ychwanegol i'r disgyblion ac yn gymorth iddynt gyda'u datblygiad cymdeithasol.

Ar ddiwedd Blwyddyn 9, trefnir i'r disgyblion gael diwrnod i flasu'r pynciau sydd ar gael iddynt fel rhan o gyrsiau a gynhelir ar y cyd gyda Coleg. Yn dilyn y diwrnod hwn bydd y disgyblion yn dewis y pwnc maent am ei ddilyn ym Mlynnyddoedd 10 ac 11.



CRAIDD PERSONOL

Ar adegau gwahanol dros y 5 mlynedd bydd y craidd yn cynnwys:-

Addysg Grefyddol,	Addysg Foesol,
Cynghori,	Gyrfaedd,
Cofnodi Cyrhaeddiad,	Addysg Iechyd,
Gofal Teulu a Phlant,	Addysg Rhyw,
Addysg Hamdden a Chorfforol,	Profiad Busnes a Menter,
Profiad Gwaith,	Sgiliau Astudio
Dinasyddiaeth	Gwella Perfformiad

ac amryw o'r agweddau eraill sydd yn briodol i'r maes Personol/Cymdeithasol.

Bydd datblygiadau'r medrau allweddol mewn cyfathrebu, cymhwyso rhif a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu yn ogystal â'r medrau personol a rhyngpersonol o weithio gyda eraill a datrys problemau, ar gael i bawb drwy raglenni gwaith y cwricwlwm.

Ni fydd y Astudiaethau Craidd yr un fath i bawb gan y bydd yr elfen gydadferol yn gryf iawn ynddo - yn rhoi profiadau i ddisgybl sydd yn gyflenwol i'w ddewis ac anghenion personol ef neu hi. Harneisir cyfraniadau gwerthfawr sgiliau a ddatblygir mewn rhai meysydd profiad i gynorthwyo meysydd profiad eraill. Er enghraifft pwysleisir yr elfennau personol/moesol o fewn meysydd Iaith a Dyniaethau ac mae Celfyddyd Gain a Dylunio yn gwneud cyfraniad gwerthfawr i sicrhau dysgu Technoleg effeithiol.

"Nodweddd gref o'r ysgol yw bod y rhan fwyaf o'r dysgwyr yn cymryd rhan mewn digwyddiadau a gweithgareddau yn y gymuned." Adroddiad ESTYN 2012

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

ARHOLIADAU CYHOEDDUS

Bydd holl ddisgyblion yr ysgol yn cael eu cofrestru i sefyll arholiadau T.G.A.U., C.G.C. neu T.L.M. (neu gyfuniad) ar derfyn Blwyddyn 11. Bydd lleiafrif bach yn cael eu cynghori i beidio sefyll arholiadau allanol mewn un neu ddau o bynciau os yw'r amcangyfrifon yn dangos methiant llwyr i gyrraedd y radd isaf neu am reswm personol. Disgwylir i bob disgybl barhau i ddilyn pob cwrs i'w derfyn.

Y CWRICWLWM - ÔI 16 Blynnyddoedd 12 a 13

Mae'n hanfodol bwysig fod Blynnyddoedd 7 - 11 yn gosod sail nid yn unig ar gyfer cyrsiau **Lefel 'UG' a Lefel 'A2'** ond hefyd ar gyfer cyrsiau BTEC Galwedigaethol, y byd gwaith, cyrsiau hyfforddiant a chysiau galwedigaethol penodol.

Unwaith eto, ym Mlynnyddoedd 12 a 13 mae'r craidd personol yn bwysig ac yn dangos dilyniant o Flynnyddoedd 7 - 11, gan roi cyfle i ymarfer ac ehangu'r medrau allweddol. Bydd cyfle hefyd i gyplysu pynciau mwy academaidd gyda sgiliau allweddol megis Cyfathrebu, Cymhwyso Rhif a Technoleg Gwybodaeth. Bydd modd i fyfyrwyr Bl. 12 a 13 astudio tuag at Cymhwyster y Fagloriaeth Gymreig.

Llwyddiannus iawn yw Cymwysterau Galwedigaethol Uwch ers eu cyflwyno fel dewis i fyfyrwyr 16+. Mae myfyrwyr yn dilyn cyrsiau Uwch neu Canolradd gyda dilyniant i Addysg Bellach/Uwch a chyfleoedd am waith. Mae mwyafrif o'r cyrsiau Safon Uwch 'AS'/'A2' yn yr Ysgol ond canolir y pynciau lleiafrifol yn Llangedfni a cheir cydweithio gydag ysgolion eraill neu drwy ddefnyddio dulliau dysgu hyblyg.

Ceir gwybodaeth fwy manwl am y pynciau lefel 'AS'/'A2', pynciau galwedigaethol, y cyfuniadau posib a'r craidd personol yn Llawlyfr Blwyddyn 12 fydd yn cael ei ddosbarthu i ddisgyblion Blwyddyn 11 yn ystod mis Mawrth o'u blwyddyn olaf.

Ceir gogwydd cyn-awledigaethol, yn ogystal ag academaidd i gwrs addysg disgyblion a myfyrwyr 14 - 18 oed. Mae'r cynllun yn ategu a chryfhau cyflwyniad y Cwricwlwm Cenedlaethol yn yr ysgol ac yn sicrhau fod gan bobl ifanc y wybodaeth, y medrau a'r cymwysterau y bydd eu hangen arnynt mewn cymdeithas dechnolegol sydd yn rhan o economi Ewrop a'r byd.

CYMWYSTERAU A GYNIGIR

Mae'r ysgol yn paratoui disgyblion ar gyfer y cymwysterau canlynol:-

Yn 16 oed

Tystysgrif Gyffredinol Addysg Uwchradd (C.B.A.C.)

Y graddau ar gael fydd :-

A* A B C D E F G U

Mewn rhai pynciau bydd posib sefyll arholiadau mewn haen sydd yn arwain at amrediad cyfyng o'r graddau. Yn yr achosion yma bydd yr adrannau perthnasol yn penderfynu pa haen fydd orau i'r disgybl sefyll mewn ymgynghoriad â'r disgybl.

Tystysgrif Lefel Mynediad (C.B.A.C.)

Y graddau ar gael fydd :- (Anrhydedd (3), Clod (2), Llwyddo (1), Methu)

T.G.A.U. - Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu - Cwrs byr (CBAC)

Y graddau ar gael fydd :- (A* A B C D E F G U)

17+, 18+ Tystysgrif Addysg Gyffredinol - Lefel AS ac A2 ac AVCE Galwedigaethol (C.B.A.C./O.C.R.)


Y graddau ar gael fydd :- (A B C D E /Methu)

BTEC Galwedigaethol (Edexcel) Clod Uchel / Clod / Llwyddo / Methu

T.G.A.U. (C.B.A.C.) Y pynciau craidd a thraddodiadol yn bennaf.

BAC - Diploma Uwch.

Sgiliau Allweddol – Lefel 2 a 3 i Blwyddyn 12 a Blwyddyn 13



CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

GWERSI GWASANAETH CERDD YSGOLION GWYNEDD AC MON

Dylid nodi fod yr ysgol yn derbyn gwasanaeth athrawon cerdd teithiol gan Wasanaeth Cerdd Ysgolion Gwynedd a Môn. Gellir cynorthwyo disgyblion i baratoi am arholiad offerynnol allannol.

ADDYSG IECHYD AC ADDYSG RHYW

Cred y Corff Llywodraethu y dylai addysg rhyw fod yn rhan allweddol a chreiddiol o gwricwlwm Addysg Iechyd pob disgybl ac mae'r modd y'i cyflwynir yn annog disgyblion i roi'r ystyriaeth briodol i ystyriaethau moesol a gwerth teuluol.

Defnyddir gwersi Gwyddoniaeth ym Mlynedd 7, 8 a 9 i addysgu'r agweddau ffeithiol ac addysg iechyd. Mae disgyblion yn derbyn gwybodaeth a'r cyfle i drafod agweddau o Addysg Iechyd yn ystod gwersi tiwtorial (gan arbenigwr Addysg Iechyd a chan diwtoriaid unigol).

Yn ystod Blynedd 10 a 11 defnyddir y rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol ar gyfer materion megis cyfrifoldeb personol, problemau cymdeithasol, cam-drin, agweddau at ryw, creu perthynas, afiechydon megis SDIC a chynllunio teulu. Gwahoddir arbenigwyr ar addysg iechyd i'r ysgol i gyfrannu i'r rhaglen hon.

Cynhelir Ffair Iechyd bob yn ail flwyddyn a manteisir ar ddyddiadau cenedlaethol i dynnu sylw at agweddau penodol. Ceir hefyd gyfeiriadau pynciol traws gwricwlaidd.

Gellir trefnu i weld polisi'r ysgol un unol ag adran 21 o Ddeddf Addysg 1993 trwy gysylltu â'r ysgol. Gwahoddir rhieni yn ogystal i wneud apwyntiad i drafod y cynllun gwaith gyda'r Prifathro os oes unrhyw ansicrwydd ynglŷn â'r priodoldeb o'i gyflwyno i'w plant. Os yw rhiant yn gwrthwynebu i'w blentyn dderbyn addysg rhyw, gellir gwneud trefniadau addas.

AMCANION Y POLISI ADDYSG RHYW

- * annog agwedd bositif a chytbwys tuag at rywioldeb.
- * galluogi disgyblion i ffurfio a gweithredu penderfyniadau sy'n seiliedig ar wybodaeth, rhesymeg a chyfrifoldeb, ynglŷn â'u rhywioldeb, eu hymddygiad rhywiol a'u perthynas ag eraill - yn eu llencyndod ac ar ôl iddynt dyfu'n oedolion.
- * darparu gwybodaeth am berthynas gariadus, natur rhywioldeb a phroses atgynhyrchu dynol.
- * paratoi disgyblion i edrych ar eu perthynas ag eraill mewn modd cyfrifol ac iach o fewn fframwaith o werthoedd ac o ymwybyddiaeth o'r gyfraith.
- * helpu disgyblion i adnabod y goblygiadau corfforol, emosiynol a moesol, a'r risg sy'n gysylltiedig â mathau neilltuol o ymddygiad.
- * annog disgyblion i sylweddoli gwerth bywyd teuluol sefydlog, ystyried cyfrifoldebau o fod yn rhieni a'r angen i ymddwyn yn gyfrifol.
- * galluogi disgyblion i adnabod ac ymateb i ymddygiad annerbyniol gan oedolion phlant eraill.
- * galluogi disgyblion i ymdopi â newidiadau mewn bywyd teuluol.
- * meithrin dealltwriaeth a pharch tuag at ddaliadau crefyddol a diwylliannol gwahanol.

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

ADDYSG GYRFAOEDD AG ADDYSG GYSYLLTIEDIG Â GWAITH

Rhoddir cryn bwyslais bellach ar gysylltiadau â'r byd gwaith a diwydiant. Prif amcan addysg a chyfarwyddid gyrfaedd a phrofiad gwaith yw cynorthwyo'r myfyrwyr i gasglu'r wybodaeth, sgiliau ac agweddau angenrheidiol ar gyfer addysg gydol oes a datblygiad gyrfa. Cyflwynir addysg yrfaedd yn CA3 ym mlwyddyn 8 gyda gwaith grŵp unigol. Ym mlwyddyn 9 bydd dewis pynciau a gweithgareddau menter. Cyflwynir hefyd adnodd yn defnyddio'r we, sef Gyrfa Cymru Ar Lein. Ym mlwyddyn 10 mae modylau Gyrfaedd a Phrofiad Gwaith yn y cwrs ABaCh. Ym mlwyddyn 11 mae'r diwrnod opsiynau 16+ a chyfweiliadau unigol yn digwydd. Mae Gyrfa Cymru yn trefnu gweithgareddau grŵp a chyfweiliadau.

Mae'r cyngor gyrfaedd sydd ar gael gan y Cyd-Gysylltydd Gyrfaedd a Gyrfa Cymru ym mlwyddyn 9,10, 11, 12 a 13 yn gymorth i fyfyrwyr i ddefnyddio eu gwybodaeth a'u sgiliau i wneud dewisiadau synhwyrol a realistig wrth benderfynu opsiynau posib i'r dyfodol. Mae Addysg Gysylltiedig â Gwaith yn themâu traws-gwricwlaidd sy'n cyfoethogi a chryfhau'r cwricwlwm. Mae ymwneud ac ymweliadau â byd busnes a diwydiant yn cael ei gysylltu â nifer o bynciau ac mae disgyblion, athrawon, yr ysgol â'r gymuned wedi elwa o'r cyfraniad. Hefyd mae prosiectau menter yn rhoi pwyslais realistig a chystadleuol i'r myfyrwyr.

Fel rhan o'r cynllun yma mae lleoliad profiad gwaith yn cael ei drefnu i fyfyrwyr Blwyddyn 10 fel profiad ymarferol o fyd gwaith ac fel ymestyniad o'u datblygiad personol. Gall y lleoliad fod yn berthnasol i faes gyrfa dewisol y myfyriwr ond fel arfer mae'n dibynnu ar gynlluniau'r myfyriwr i aros ym myd addysg neu symud ymlaen i fyd hyfforddiant/gwaith.

Prif bwrpas Gyrfaedd ac Addysg Gysylltiedig â Gwaith yw datblygu hunan ymwybyddiaeth, cyfleoedd gyrfaol a chynorthwyo myfyrwyr unigol i gasglu gwybodaeth, sgiliau ac agweddau priodol wrth iddynt gychwyn y broses o reoli eu dysgu gydol oes a'u cynlluniau gyrfaol hir dymor.

ASESU AC ADRODD

GWAITH CARTREF

Mesurir cynnydd y plant yn barhaol ac un agwedd o'r asesu yw'r Gwaith Cartref sy'n rhan hanfodol o raglen pob disgybl. Gall gynnwys amryfal weithgareddau megis gwaith ysgrifenedig, dysgu, ymholi ac ymchwilio.

ASESU

Ers dyfodiad y Cwricwlwm Cenedlaethol rydym wedi ail edrych ar ein dulliau o asesu ac adrodd i rieni. Mae pynciau'r Cwricwlwm yn Bl. 7, 8 a 9 yn dilyn patrwm o asesu parhaol h.y. mae cymal penodol o waith yn cael ei asesu wrth i'r gwaith fynd yn ei flaen neu ar derfyn y gwaith. Mae pob adran yn trosglwyddo asesiad ar bob disgybl dair gwaith y flwyddyn i'r Arweinwyr Blwyddyn ac adroddir yr asesiadau yma i'r rhieni. Gosodir targedau personol i bob disgybl o Flwyddyn 7 – 11.

Mae'r asesiadau yma yn bwysig i'r disgybl, rhieni a'r ysgol gan y gellir monitro cynnydd y disgybl drwy ei gyrhaeddiad a'i ymdrech ym mhob pwnc ac adnabod disgyblion sy'n tangyflawni. Mae'n ffordd o osod targedau realistig fel y gall disgybl wella ei gyrhaeddiad. Mae'n bwysig i rieni wybod ein bod yn asesu ar draws blwyddyn ysgol gan ddefnyddio 6 gradd cyrhaeddiad a 4 gradd ymdrech ac ymddygiad. Fel rhan o'r 3ydd asesiad ceir adroddiad cynhwysfawr sy'n cael ei ddarparu i rieni ar holl raglen waith y disgyblion ar ddiwedd y flwyddyn academaidd. Adroddir ar gynnydd llythrennedd a rhifedd y disgyblion yn CA3 hefyd.

ARHOLIADAU/PROFION ALLANOL

Bydd arholiadau ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 4 (Mehefin Bl.11) [TGAU/ T.L.M.] Paratoir adroddiad llawn y lefel o gyrhaeddiad y disgyblion y pynciau Cwricwlwm Cenedlaethol ar gyfer y rhieni erbyn diwedd Gorffennaf (C.A.3). Darperir amserlen yn flynyddol gan y Bwrdd Arholi Allanol (CBAC) fydd yn cynnwys manylion llawn am drefniadaeth yr arholiadau a'r canlyniadau a gyhoeddir diwedd Awst (C.A. 4).

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

ARHOLIADAU/PROFION MEWNOL

Agwedd arall ar asesu yw'r arholiadau neu brofion estynedig mewnol a gynhelir unwaith y flwyddyn. Lleolir plant mewn grwpiau a chyflwynir hwy i'r arholiadau perthnasol ar sail yr asesu yma. Darperir Adroddiadau manwl i rieni unwaith y flwyddyn a chynhelir noson rieni i bob blwyddyn unwaith y flwyddyn. Ceir manylion am y nosweithiau yma yng nghalendr yr ysgol.

Yn CA3 bydd y disgyblion yn sefyll profion cenedlaethol llythrennedd a rhifedd.

COFNOD O GYRHAEDDIAD - Y FFEIL LLWYBR LLWYDDIANT

Mae pob disgybl yn yr ysgol yn dilyn Cynllun Gweithredu Unigol. Prif amcan y cynllun yma yw annog y disgyblion i gymryd mwy o gyfrifoldeb am eu haddysg a gosod targedau i hyrwyddo eu cynnydd. Rhydd gyfle i athro a disgybl gyd-drafod yr agweddau sydd angen sylw a chynllunio i'w goresgyn. Trwy gyfrwng asesiadau rheolaidd a monitro cynnydd a datblygiad mae'r Cynllun Gweithredu Unigol yn ddull effeithiol iawn o godi safonau a meithrin datblygiad academaidd a phersonol yn y disgyblion.

Ym Mlwyddyn 10 a 11 mae asesu yn rhan annatod o gynllun Cofnod Cenedlaethol o Gyrhaeddiad. Golyga hyn y bydd rhinweddau personol a sgiliau academaidd pob disgybl yn cael eu datblygu a'u recordio drwy broses ffurfiannol dros y ddwy flynedd ac yn cael eu crynhoi mewn dogfen grynodol fydd yn eiddo i'r disgybl ar ddiwedd Blwyddyn 11. Bydd y ddogfen yn cynnwys datganiad gan diwtor y disgybl, gan y disgybl ei hun a chofnod o'i lwyddiannau tu fewn a thu allan i'r ysgol. Mae polisi'r Awdurdod Addysg ar Gofnodi Cyrhaeddiad yn gosod canllawiau i'w dilyn ac mae cynllun yr ysgol wedi ei achredu gan Gydbwyllgor Addysg Cymru.

Mae'r cynllun yma wedi ei ymestyn i raddau helaeth i ddisgyblion Bl.12/13.

Prif amcanion y Ffeil Llwybr Llwyddiant yw cynorthwyo'r disgyblion i :-

- adnabod eu dysgu a'u cyraeddiadau.
- gosod targedau ar gyfer dysgu, a chynllunio sut i'w cyflawni.
- datblygu gwybodaeth, dealltwriaeth a sgiliau i'w paratoi ar gyfer bywyd a byd gwaith.
- datblygu hunan hyder, nodweddion personol i'w helpu i ddod yn ddinasyddion cyfrifol.
- manteisio i'r eithaf ar eu cyraeddiadau.

ANNOG A GWOBWRWYO

Mae'r ysgol yn annog a gwobrwyo disgyblion ar sail llwyddiant mewn gwaith, presenoldeb ac ymdrech. Cyflwynir tystysgrifau i ddisgyblion ym Mlwyddyn 7, 8 a 9 ac mae tystysgrif hefyd ar gael i ddisgyblion Bl.10 a Bl.11.

Mae gradd ymdrech yn rhan bwysig o'r cynllun asesu ac adrodd. Mae nifer o wobrau sefydlog blynyddol gan yr ysgol. Cyflwynir y rhain mewn cynulliad arbennig ym mis Medi.

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

“ Mae 34% o'r disgyblion yn dod o gartrefi lle siaredir y Gymraeg. Mae 82% yn sefyll arholiad Cymraeg iaith gyntaf ar ddiwedd cyfnod allweddol 4.” Adroddiad ESTYN 2012

DWYIEITHRWYDD

Mae Polisi Iaith yr ysgol wedi'i sylfaenu, ac yn cadw'n gaeth at Bolisi Iaith yr awdurdod a'r Cynllun Iaith Statogol. Amcan y Polisi yw datblygu gallu myfyrwyr a disgyblion y Sir i fod yn hyderus ddwyieithog.

Nod yr ysgol yw meithrin hyder ieithyddol y disgyblion a hyrwyddo datblygiad sgiliau dwyieithrwydd pob disgybl yn llafar ac ysgrifenedig fel y gallant fwynhau a chyfranogi'n llawn i fywyd y gymdeithas ddwyieithog y maent yn rhan ohoni. Bydd yn ofynnol i bob disgybl astudio'r Gymraeg a Saesneg hyd at ddiwedd Blwyddyn 11, a sefyll arholiad priodol CBAC Iaith a Llenyddiaeth lle bo hynny'n gymwys. Polisi clir a phendant yr ysgol yw datblygu sgiliau ieithyddol Saesneg a Chymraeg y disgyblion, gan ddefnyddio'r ddwy iaith yn gyfrwng dysgu i amrywiol raddau yn ôl gallu ieithyddol pob unigolyn fel dilyniant o addysg ddwyieithog yr ysgolion cynradd. Defnyddir Cymraeg a Saesneg fel cyfrwng dysgu ym mhob pwn yn yr ysgol yn ystod Cyfnod Allweddol 3 gan sicrhau cydbwysedd ieithyddol sy'n ateb Polisi Iaith yr Awdurdod Addysg. Yn ganolog i'n gweithrediad mae'r cydweithio a'r ymgynghori agos gydag ysgolion cynradd ein dalgylch.

Byddwn yn ystyried eu barn broffesiynol yn ogystal â chanlyniadau Asesiad Cyfnod Allweddol 2 cyn gosod y disgyblion yn ofalus mewn grwpiau dysgu addas yn unol â'u cyraeddiadau.

Anelir at rannu amser y disgyblion rhwng y gwaith cyfrwng Cymraeg a gwaith cyfrwng Saesneg, gyda lefelau iaith y cyrsiau yn cyfateb i hyfedredd ieithyddol y disgyblion. Gwneir hyn gan yr holl bynciau a chedwir golwg manwl ar ddatblygiad unigolion i sicrhau cynnydd academiaidd.

Defnyddir amryw o wahanol ddulliau dysgu ieithyddol gwahanol i gyflwyno'r cwricwlwm.

Cyflwynir termau technegol y pynciau yn y ddwy iaith a pharatoir taflenni gwaith yn ddwyieithog ar gyfer rhieni er y bydd y disgyblion eu hunain yn cwblhau'r gwaith yn iaith darged yr uned. Mae Clwb Gwaith Cartref i helpu dysgwyr gwblhau gwaith drwy gyfrwng y Gymraeg. Gyda hwyr ddyfodiaid a dysgwyr sylfaenol, anelir at gyflwyno cyfran o'u gwaith trwy gyfrwng y Gymraeg i sicrhau dilyniant a chynnydd o'u profiadau blaenorol.

Bwriad y polisi yw sicrhau dilyniant o 5 i 16 oed gan ddatblygu sgiliau dwyieithog. Bu'r Polisi yn llwyddiannus iawn dros y blynyddoedd diwethaf a byddwn yn adeiladu ar waith ysgolion cynradd ein dalgylch yn y dyfodol.

Ar ddiwedd Cyfnod Allweddol 3 (Blwyddyn 9) bydd y disgyblion yn dewis pynciau i'w hastudio ar gyfer arholiadau allanol TGAU/TLM. Disgwylir iddynt ddewis cydbwysedd yng nghyfrwng iaith eu pynciau er mwyn sicrhau llwyddiant cyfochrog yn yr arholiadau TGAU Cymraeg a Saesneg.

“ Mae'r ysgol yn anelu at sicrhau addysg o'r safon uchaf bosib i bob disgybl. Mae'n eu harwain i ddatblygu i fod yn unigolion cyfrifol ac aeddfed, fel y gallant fod yn aelodau llawn a gweithredol o gymdeithas ddwyieithog. ” ESTYN 2012



SEREMONI WOBWRWYO DIWEDD BLWYDDYN

Mae'r ysgol yn falch o allu gwobrwyo nifer fawr o ddisgyblion am lwyddiant o bob math. Ceir Seremoni ar y diwrnod olaf o'r flwyddyn addysgol gyda chyflwyniadau i ddisgyblion o bob oedran.

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

CODI TÂL AM WEITHGAREDDAU ADDYSGOL

Mae'r Corff Llywodraethol wedi mabwysiadu polisi o godi tâl ar ddisgyblion am:

- * ail-sefyll arholiadau allanol yn ôl Polisi'r Ysgol;
- * arholiadau allanol pan nad yw'r ysgol wedi paratoi'r disgyblion ar eu cyfer yn ystod y flwyddyn honno;
- * arholiadau allanol pan fo disgybl yn methu â chyflawni'r gofynion neu fynychu'r arholiad heb reswm digonol;
- * ddifrod bwriadol i eiddo'r ysgol neu am golli eiddo'r ysgol.
- * gwersi offerynnol.
- * costau llety a bwyd ar ymweliadau addysgol.
- * weithgareddau y tu allan i oriau ysgol.

Gofynnir am gyfraniad gwirfoddol gan rieni pan na ellir codi tâl am weithgareddau ond sicrhau na waherddir disgyblion rhag cymryd rhan pan na all eu rhieni gyfrannu. Mae'n bosibl na fydd modd cynnal rhai gweithgareddau heb gefnogaeth wirfoddol deilwng.

Mae'r ysgol yn gwneud defnydd eang o'r bws-mini a gafwyd gan Gymdeithas Rhieni a Chyfeillion Ysgol Syr Thomas Jones i fynd ar deithiau addysgiadol neu i weithgareddau allgyrsiol.

Os yw'r nifer yn uchel yna bydd bws yn cael ei logi. Bydd gofyn i ddisgyblion am gyfraniad cymharol fechan tuag at y gost o'r naill gludiant neu'r llall.

TREFNIADAETH AR GYFER DISGYBLION GYDAG ANGHENION DYSGU YCHWANEGOL

Mae Ysgol Syr Thomas Jones wedi mabwysiadu Polisi Ysgol Gyfan i hyrwyddo mynediad llawn i bob disgybl i gwrwclwm eang a chytbwys. Mae Clwb Gwaith Cartref wedi ei sefydlu yn yr ysgol. Cynhelir Clwb Darllen, Rhifedd a Siarad yn foreol i hybu sgiliau llythrennedd disgyblion Cyfnod Allweddol 3. Yn ogystal mae Clybiau Cyfrifiaduron ar gael.

CYFNOD ALLWEDDOL 3

Yng nghyd destun Polisi Ysgol Gyfan mae'r Ysgol wedi mabwysiadu agwedd hyblyg tuag at anawsterau dysgu. Mae disgyblion sydd angen cefnogaeth mewn llythrennedd a rhifedd yn cael eu lleoli mewn grwpiau dysgu gyda chefnogaeth addysgu ychwanegol. Mae dulliau dysgu gwahaniaethol yn cael eu hannog er mwyn darparu cwrwclwm sydd yn addas ar gyfer anghenion pob disgybl. Yn dilyn argymhellion Y Cod Ymarfer, gosodir y disgyblion pan fydd angen ar y cyfnodau priodol a darperir Cynllun Addysg Unigol ar eu cyfer. Rydym yn mentora disgyblion Bl 7 ac 8 yn wythnosol i sicrhau fod cynnydd yn digwydd ac fod y disgyblion yn hapus. Gwnawn yr un modd gyda Bl9 pob hanner tymor.

CYFNOD ALLWEDDOL 4

Sefydlwyd grwpiau dysgu yn unol â gofynion y Cwrwclwm Cenedlaethol gyda chefnogaeth athrawon arbenigol. Ble mae'n bosibl dilyna'r disgyblion gyrsiau TGAU ond mae cyrsiau Llwybrau Mynediad ar gael ar gyfer nifer fechan o ddisgyblion. Dylai anghenion rhan helaeth o ddisgyblion sydd angen cymorth, gael eu diwallu yn effeithiol yn yr ysgol ond mae lleiafrif o achosion, efallai tua 2% o blant ble fydd yr Awdurdod Addysg Lleol angen gwneud asesiad statudol a gall hyn olygu darparu ychwaneg o gymorth drwy Ddatganiad o Angen Addysgol Ychwanegol.

Bydd pob Datganiad yn cael ei adolygu'n flynyddol er mwyn sicrhau fod y ddarpariaeth yn addas. Grŵp arall o blant gydag anghenion arbennig yw'r rhai â gallu a thalent eithriadol ac mae'r Ysgol yn ymdrechu i sicrhau fod eu hanghenion hwythau yn cael eu diwallu a'u bod yn cael eu hymestyn yn addysgiadol.

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

DISGYBLION ABL A THALENTOG

Mae Ysgol Syr Thomas Jones yn darparu profiadau dysgu mwy heriol ac unigol i alluogi dysgwyr mwy abl a dawnus igyflawni'r safonau uchaf. Darpara'r ysgol weithgareddau allgyrsiol penodol a chynhaliaeth

dawnus yw plentyn sydd yn y 5-10% uchaf o boblogaeth disgyblion yr ysgol neu grŵp dosbarth cyfan sydd â gallu penodol mewn maes arbennig. Dyma'r sgiliau rydym ni'n eu hadnabod yma.....

Academaidd:
Chwaraeon
Perfformio
Sgiliau cymdeithasol ac
Arweinyddol

Y mae plentyn dawnus, fel y'i diffinir gennym ni yn Ysgol Syr Thomas Jones, yn blentyn sydd yn, neu sydd a'r gallu i gyflawni ar y lefel uchaf. Gall hyn fod ym mhob maes cwricwlaidd neu o fewn ystod cyfyngedig. Rydym ni yn diffinio lefel uchel fel lefel 7 neu uwch ar ddiwedd CA3, gradd A neu A* ar ddiwedd CA4 a CA5

Mae'r athrawon wedi datblygu strategaethau ysgol gyfan i adnabod, addysgu a chefnogi'r abl a thalentog er mwyn meithrin eu gallu ar gyfer dysgu a meddwl yn greadigol heb gyfyngiad.

Drwy ofalu fod y dulliau hyn yn cael eu defnyddio, eu haddasu a'u defnyddio ym mhob dosbarth/maes/pwnc mae'r dysgwyr medrus, abl a thalentog yn gallu datblygu eu sgiliau i gyrraedd y lefelau uchaf.

Yr aelod o staff sydd gyda chyfrifoldeb penodol am y plant abl a dawnus yw **Mrs Mefys Jones-Edwards**
Y llywodraethwyr dynodedig sydd gyda cyfrifoldeb am y plant dawnus yw **Mrs Nia Edwards**

DARPARIAETH STRATEGOL:

Er mwyn sicrhau bod disgyblion a ddynodwyd yn rhai medrus, abl a thalentog yn cael eu herio'n briodol, bydd athrawon yn addasu tasgau gyflwynir iddynt. Yn unol ag anghenion unigol gofynnir i'r disgyblion ddarllen, ysgrifennu a siarad am eu gwaith a chyfrannu mewn trafodaethau a/neu i weithio gyda disgyblion abl a dawnus eraill.

Mae'n holl bwysig cofio y gall plant talentog fod sawl blwyddyn ar y blaen i'w cyfoedion yn academiaidd, ond yn dal i fod yn debyg i'w hoedran cronolegol yn emosiynol a chymdeithasol.

CWRICWLWM, TREFN AC ASESU

CYFLE CYFARTAL

Amcan yr ysgol yw:

- Sicrhau cyfleoedd i'n holl ddisgyblion o ba bynnag gefndir cymdeithasol y dônt, cyfleoedd cyfartal i fechgyn a merched, i blant mewn ardaloedd gwledig a threfol, i blant galluog iawn a phlant llai galluog.
- Meithrin agweddau cadarnhaol mewn perthynas â hil a chrefydd a rhyw.
- Osgoi cyflyru ac ystrydebu, yn enwedig mewn perthynas â'r cwricwlwm.

CYDRADDOLDEB HILIOI

Mae'r ysgol yn croesawu ei dyletswyddau cyfreithiol o dan y Ddeddf Cysylltiadau Hilioi. Rydym wedi ein hymrwymo i:

- hybu cyfleoedd cyfartal
- hybu perthynas dda rhwng aelodau o wahanol grwpiau a chymunedau hilioi, diwylliannol a chrefyddol.
- dileu gwahaniaethu annheg o bob ffurf.

ADDYSG GORFFOROL

I gadw'n iach, dylech gael ymarfer corff drwy gydol eich oes. Mae gweithgaredd corfforol rheolaidd, a chaled yn hybu twf a datblygiad.

Dylai pob plentyn gael y cyfle i brofi amrediad cynhwysfawr o weithgareddau Addysg Gorfforol a chael y cyfle i ymestyn eu gwybodaeth a chymryd mwy o ran yn eu hoff feysydd. Dylai pob plentyn gael llwyddiant mewn un neu fwy o feysydd y cwricwlwm Addysg Gorfforol.

Bwriadwn gyrraedd y nodau yma drwy gyfrwng y canlynol:

- Cwricwlwm cytbwys.
- Rhaglen allgyrsiol eang yn cynnwys:
Timau Arbenigol
Cystadlaethau Rhwng Tai
Gweithgareddau Adloniadol / Gweithgareddau 5X60

ADDYSG GREFYDDOL - CYD ADDOLI YN YR YSGOL

Mae Addysg Grefyddol yn cael ei gyflwyno yn statudol yn C.A. 3 trwy wersi wythnosol sy'n rhan o'r cwricwlwm Dyniaethau.

Yn C.A.4, mae modiwlau Addysg Grefyddol yn cael eu cynnwys fel rhan o'r rhaglen Addysg Bersonol a Chymdeithasol.

Yn C.A.5, mae cyfres o wersi statudol yn cael eu cyflwyno.

Mae'r diwrnod ysgol arferol yn dechrau trwy gynulliad sy'n cynnwys cyd-addoli ar gyfer holl ddigybllion yr ysgol. Lleolir gwasanaethau blwyddyn benodol yn y Theatr ar adegau arbennig. Mae'n arferol i oedolion a disgyblion gymeryd rhan yn y gwasanaethau ar draws y blynyddoedd.





Allgyrsiol *Extracurricular*



GOFAL BUGEILIOL

AMCANION CYFFREDINOL A PHENODOL YR YSGOL

1. Meithrin yn gyntaf oll, gymdeithas waraidd sy'n rhoi pwys ar werthoedd moesol a dynol, gan ddatblygu hunan barch a hefyd parch goddefgarwch tuag at eraill a gofal drostynt.
2. Galluogi pob unigolyn i fod yn aelod llawn yn y gymdeithas ddwyieithog y mae'n rhan ohoni.
3. Galluogi pob unigolyn i ennill, datblygu a chymhwyso sgiliau iaith a mathemateg.
4. Galluogi pob unigolyn i ddatblygu sgiliau deallusol, creadigol, cymdeithasol, ymarferol a chorfforol.
5. Dysgu am gyflawniadau a dyheadau dyn yn maes y celfyddydau, y gwyddorau, crefydd a'r ymchwil am gymdeithas ragorach.
6. Galluogi pob unigolyn i feithrin gwybodaeth, agweddau a sgiliau sy'n berthnasol i fywyd oedolyn, i waith a diweithdra mewn byd sy'n prysur newid, i addysg barhaol ac i'r defnydd creadigol o hamdden.
7. Cynorthwyo pob disgybl i ddeall y byd y mae'n byw ynddo a'r modd y mae unigolion, grwpiau a chenhedloedd yn ddibynol ar ei gilydd.

Mae'r prospectws yma yn crynhoi amcanion yr ysgol, polisïau a threfniadaeth. Dymuniad yr ysgol yw creu partneriaeth gefnogol rhwng yr ysgol a'r cartref a hynny er lles yr unigolion. Mae'r ysgol yn gwahodd rhieni/gwarchodwyr i arwyddo cytundeb syml i gadarnhau hyn wrth i'r disgybl drosglwyddo i addysg uwchradd yn Ysgol Syr Thomas Jones.

GOFAL BUGEILIOL

Mae trefn gofal bugeiliol yr ysgol yn anelu at ofalu am les y plentyn, arolygu ei ymddygiad a'i gynnydd cyffredinol a rhoi arweiniad iddo ar ddewis gyfa.

FFRAMWAITH

Mae gofal bugeiliol yn rhan o wasanaeth pob athro, ond rhoddwyd dyletswyddau arbennig i grŵp o athrawon sy'n gweithio fel tîm:

1. Tiwtoriaid sy'n gyfrifol am -
 - i. Gofrestru eu grwpiau ddwywaith y dydd, cyn y Gwasanaeth Boreol ac ar ddechrau'r prynhawn.
 - ii. Ofalu bod y plant yn cydymffurfio â rheolau prydlondeb, presenoldeb ac ymddangosiad.
 - iii. Gyflwyno pob gwybodaeth angenrheidiol, yn cynnwys amserlen eu gwersi, gwaith cartref ac arholiadau.
 - iv. Baratoi adroddiadau i'r rhieni yn dilyn arholiadau'r ysgol.
 - v. Ymdrin â phroblemau sydd ym marn yr athrawon pwnc yn hawlio sylw pellach.

Y mae pedwar Arweinydd Blwyddyn yn gofalu am blant Blwyddyn 7, 8 & 9, 10 & 11 a 12 & 13. Eu cyfrifoldeb hwy yw ymdrin â phroblemau a drosglwyddir iddynt gan y Tiwtor, paratoi adroddiadau ar blant a thrafod pynciau perthnasol â'r rhieni pan fo'r galw.

Mae un o'r dirprwyon yn gweithredu fel cyswllt efo'r asiantaethau allanol yn cydlynnu eu gwaith ac yn trefnu arbenigwyr i ymweld â'r ysgol megis Swyddog Iechyd Ysgolion, Swyddog Meddygol Ysgolion, Seicolegydd Addysg, Swyddog Cyswllt yr Heddlu, y Swyddog Lles a Swyddogion y Gwasanaethau Cymdeithasol.

Rôl ein Hanogwr Dysgu yw cefnogi disgyblion efo'r modd y maent yn ymdrin â gwaith academiaidd, cynnig cyngor ar faterion megis rheoli amser a dulliau adolygu. Bydd yr anogwr mewn cysylltiad cyson â'r athrawon pwnc a'r rhieni.

Mae Swyddogion Cymorth Cyntaf wrth law i gynorthwyo gydag archwiliadau meddygol yr ysgol, i weinyddu cymorth cyntaf ac i wneud trefniadau addas mewn achos o ddamwain neu waeledd annisgwyl. Nid yw'n rhan o'u dyletswyddau fodd bynnag i roi triniaeth neilltuoel nag i rannu meddyginiaeth arbennig y gellid ei ddisgwyl gan y Gwasanaeth Iechyd drwy'r rhieni.

GOFAL BUGEILIOL

DISGYBLAETH

Mae'r drefn ddisgyblaeth yn seiliedig ar bolisi lle mae pob athro'n gyfrifol am ymddygiad ei ddosbarth ei hun ond os oes angen, gellir cyfeirio disgyblion i sylw'r uwch athrawon. Mewn rhai achosion o ddrwgweithred cedwir plentyn i mewn fel cosb.

Mae gan y Pennaeth hawl i atal disgyblion rhag mynychu'r ysgol am unrhyw reswm a ystyria'n ddigonol am gyfnod o hyd at 15 diwrnod mewn blwyddyn ysgol. Bydd gan y rhieni'r hawl i apelio yn erbyn yr ataliad i Gadeirydd y Llywodraethwyr. Os bydd y Prifathro o'r farn bod angen ymestyn yr ataliad dros 15 diwrnod yna hysbysir y Cadeirydd o hyn ac mae'n rhaid galw cyfarfod o Is-Banel Lles y Llywodraethwyr i drafod yr ataliad.

Ymddygiad - mae disgwyl i bob disgybl gyfrannu at greu cymdeithas wâr yn yr ysgol drwy:

- Bod yn feddylgar, yn garedig ac yn foneddigaidd yn ei berthynas â disgyblion eraill, holl staff yr ysgol ac unrhyw ymwelwydd.
- Peidio â gwneud difrod bwriadol nac ymyrryd ag eiddo pobl eraill, osgoi iaith anweddus, haerllugrwydd ac anghwrteisi.
- Gwneud pob ymdrech i gadw'r ysgol a'i hamgylchedd yn daclus; rhoi pob ysbwriel yn y biniau; ymatal rhag ysgrifennu ar y parwydydd.
- Gwisgo gwisg ffurfiol yn yr ysgol ac ar wibdeithiau swyddogol, oni threfnir yn wahanol.
- Peidio â dod a phethau i'r ysgol sydd yn beryglus ac yn wrthgymdeithasol neu ymosodol fel cyllyll, gwn, ffyn taflu, tân gwyllt, sigarennau, leitar neu matsis.
- Peidio ag ysmygu, cymryd alcohol nag ymhél â chyffuriau mewn unrhyw fodd. Gofynnir i rieni ein cefnogi yn y cyswllt hwn trwy annog eu plant ym mhob ffordd i feithrin arferion iach.
- Cymryd pob gofal o'r gwerslyfrau a'r llyfrau ysgrifennu. Mae disgwyl i bob disgybl fod gyda'r offer angenrheidiol ar gyfer pob gwers e.e. llyfrau perthnasol, offer ysgrifennu, cyfrifiannell, dillad addysg gorfforol.

POLISI CYFNOD COSB

Mae'r ddarpariaeth yma ar gyfer disgyblion sydd wedi methu a chydymffurfio â disgwyliadau'r ysgol a hynny ar ôl sawl ymdrech i gyngori a pherswadio. Derbynnir y bydd rhai achosion difrifol pryd y pennir fod cyfnod cosb yn ateb ar unwaith. Bydd hyd y cyfnod cosb o 12.35yh. - 1.05yh. dan oruchwilaeth staff. Mae cofnod cyfnod cosb yn cael ei gadw ar SIMS. Penderfyniad yr ysgol fydd hysbysu'r rhieni o'r cyfnod cosb a'i pheidio.



Mae Timau Rygbi YSTJ yn gystadleuol iawn. Gwneir gwibdeithiau cyson i weld gemau rhyngwladol yng Ngherbydd. Mae cyfleoedd hefyd i ddisgyblion deithio i Bark Eirias i wyllo gemau dan 21 Cymru.

GOFAL BUGEILIOL

CYTUNDEB CARTREF – YSGOL

Mae dogfen Llywodraeth Cymru, 'Adeiladu Ysgolion Ardderchog gyda'n gilydd' yn mynnu bod gan bob ysgol gytundeb cartref-ysgol ysgrifenedig sy'n esbonio priod gyfrifoldebau ysgolion a rhieni o ran codi safonau. Mae'n ofynnol i'r Corff Llywodraethol fabwysiadu cytundeb cartref-ysgol a datganiad cysylltiedig gan y rhieni. Mae disgwyl i'r Corff Llywodraethol gymryd camau rhesymol i wneud yn siŵr bod rhieni'r holl ddisgyblion yn llofnodi'r datganiad er mwyn dangos eu bod yn deall ac yn derbyn cynnwys y cytundeb. Bydd hyn yn digwydd wrth i ddisgyblion newydd ymuno â'r ysgol a bydd yn weithredol dros eu hamser yn yr ysgol.

PRYDLONDEB

Disgwylir i ddisgyblion fod yn brydlon i'r ysgol yn ogystal ag i'w gwersi a chyfnodau cofrestru. Bydd y diwrnod ysgol yn cychwyn gyda chloch am 8.45am a dylai pob disgybl fod yn ey ystafell cofrestru pan genir yr ail gloch am 8.50am. Os bydd unrhyw un yn cyrraedd ar ôl i'r cofrestru ddechrau bydd yn cael ei ystyried eu bod yn hwyr. O'r adeg honno hyd at 9.30am ystyrir unrhyw ddisgybl sy'n cyrraedd yn **hwyr cyn cau'r gofrestr**.

Bydd disgybl sy'n cyrraedd yr ysgol ar ôl 9.30am yn cael ei gyfrif fel bod yn **hwyr ar ôl cau'r gofrestr** ac felly bydd angen nodyn i egluro'r amhrydlondeb. Bydd prydlondeb yn cael ei fonitro ac mae camau gweithredu wedi eu sefydlu i ddelio gyda disgyblion sydd gyson yn hwyr i'r ysgol.

ABSENOLDEB

- Mae'n ddyletswydd cyfreithiol ar rieni i anfon eu plant i'r ysgol yn rheolaidd. Mae rhieni sy'n methu cyflawni'r ddyletswydd yma yn wynebu cael eu herlyn.
- Mae cyfrifoldeb rhieni yn ymestyn i sicrhau fod eu plant yn cyrraedd yr ysgol mewn pryd, mewn gwisg briodol ac mewn cyflwr i ddysgu.
- Cyfrifoldeb rhieni yw hysbysu'r ysgol am absenoldeb plentyn cyn gynted â phosibl ac i ddarparu unrhyw wybodaeth bellach y gall fod ei hangen. Mae trefn weithredu rhwng y Tiwtor, Pennaeth Blwyddyn â'r Dirprwy pan na dderbynnir gwybodaeth mewn amser rhesymol. Mae disgwyl llythyr yn egluro'r absenoldeb ar y diwrnod cyntaf yn ôl yn yr ysgol. Os na dderbynnir llythyr o fewn 5 diwrnod ysgol yna bydd yr absenoldeb yn cael ei gofnodi fel absenoldeb anawdurdodedig.
- Gall yr ysgol ofyn am gymorth Swyddogion Lles Addysg a hysbysu'r Awdurdod Addysg Lleol pan fo presenoldeb afreolaidd disgybl yn achosi pryder.
- Yr ysgol, yn unig, yng nghyd-destun y gyfraith, a all gymeradwyo absenoldebau. Mae absenoldebau yn cael eu gosod mewn dau gategori - AWDURDODEDIG ac ANAWDURDODEDIG.
- Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ABSENOLDEBAU AWDURDODEDIG: Gwaeledd, apwyntiadau meddygol neu ddeintyddol, mynychu gŵyl grefyddol y mae rhieni'r disgybl yn aelodau.
- Mae'r canlynol yn enghreifftiau o ABSENOLDEBAU ANAWDURDODEDIG: Siopa yn ystod oriau Ysgol, cyfrifoldebau cartref, aros adref i warchod, gwyliau estynedig yn ystod tymor Ysgol.
- Bydd rhaid i'r disgyblion sy'n dod yn hwyr i'r ysgol alw yn swyddfa'r ysgol yn syth ar ôl cyrraedd. Bydd cofrestr y bore yn cael ei gau am 9.30 ac am 2.00 yn y prynhawn.
- Dylai rhieni sy'n trefnu gwyliau tu allan i wyliau'r ysgol ystyried calendr yr Ysgol ac oblygiadau hyn i'r plentyn. **Dim ond mewn achosion arbennig iawn y dylai'r gwyliau yma gymryd lle.**
- Ymarfer Corff : os yw disgybl yn dymuno cael ei esgusodi o wersi ymarfer corff am resymau meddygol rhaid iddo gael nodyn gan ei riant (am gyfnod byr dros dro) neu dystysgrif feddygol (am gyfnod estynedig neu barhaol).

GOFAL BUGEILIOL

GADAEI TIR YR YSGOL

Ni all unrhyw ddisgybl fynd oddi ar dir yr ysgol yn ystod oriau ysgol oni chaiff ganiatâd swyddogol ymlaen llaw. Dylai rhieni hysbysu'r ysgol os oes unrhyw fwriad tynnu plentyn o wersi.

TREFNIADAU AWR GINIO

- i. Er lles y plant mae'n ofynnol iddynt yn ystod yr awr ginio gymryd cinio ysgol neu ddod â'u bwyd eu hunain i'w fwyta yn ffreutur yr ysgol.
- ii. Dylid hysbysu'r ysgol, trwy lythyr, os yw plentyn yn dymuno newid ei drefniadau cinio, fel mynd adref i gael cinio.

MEDDYGOL

Disgwylir i rieni hysbysu'r ysgol o unrhyw gyflwr meddygol neu glinigol a all effeithio ar bresenoldeb neu berfformiad.

BYSIAU YSGOL

